



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

Hanner
Tymor
Hapus!

YN Y RHIFYN HWN

- CANOLFAN AWTISTIAETH - DIWEDDARIAD
- WYTHNOS YMWWYBYDDIAETH BYDDARDOD
- BEICATHON!
- PRYDLONDEB - DIWEDDARIAD
- ALLGYRSIOL
- DYDDIADAU PWYSIG

IN THIS ISSUE

- AUTISM BASE - UPDATE
- DEAF AWARENESS WEEK
- BIKEATHON!
- PUNCTUALITY - UPDATE
- EXTRA CURRICULAR
- IMPORTANT DATES



DIWRNODAU HMS 2025-26

19.6.26
20.7.26

Dim ysgol i'r disgyblion

INSET DAYS 2025-26

19.6.26
20.7.26

No school for pupils

Gyda 'n Gilydd Fe Lwyddwn | Together We Will Succeed



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

Diolch a Hanner Tymor Hapus!

Diolch i bawb am eich cefnogaeth drwy gydol yr hanner tymor hwn. Rydym yn dymuno gwyliau braf i chi i gyd ac edrychwn ymlaen at eich gweld yn ôl ddydd Llun, 1af o Fehefin, pan fyddwn yn cynnal Mabolgampau Blynnyddoedd 1-6 yn Met Caerdydd!

Cofiwch hefyd am sesiynau Bwrlwm Wythnos nesaf! Manylion isod!

Gwaith Canolfan Awtistiaeth

Bydd gwaith yn dechrau ar ein canolfan awtistiaeth newydd dros wyliau'r Whitsun. Pan fyddwch yn dychwelyd i'r ysgol, gofynnwn i chi fod yn arbennig o ofalus gan y bydd rhan fawr o'n maes parcio yn cael ei ddefnyddio fel safle adeiladwyr. Bydd llai o lefydd parcio ar gael, felly bydd staff angen parcio ar Heol Lewis, a fydd yn gwneud yr ardal yn brysurach na'r arfer.

Rydym hefyd yn parhau i weld rhieni yn parcio o flaen ein giataiau wrth ollwng plant i'r Feithrinfa, yn enwedig pan fydd rhieni'n cyrraedd yn hwyr. Mae hyn yn hynod beryglus. Gallai damwain ddifrifol ddigwydd os bydd hyn yn parhau. Rhaid inni eich atgoffa nad yw'r ardal hon yn bae parcio, ac ni ddylai cerbydau stopio yno ar unrhyw adeg.

Yn ystod y gwaith adeiladu, byddwn hefyd yn derbyn danfoniadau drwy gydol y dydd, felly mae'n hollbwysig bod y giataiau'n cael eu cadw'n glir bob amser.

Diolch am eich cydweithrediad wrth gadw ein cymuned ysgol yn ddiogel.

Thank you and Happy Half Term!

Thank you all for your support throughout this half term. We wish everyone a lovely break, and we look forward to seeing you back on Monday, 1st June, when we will be holding our Years 1-6 Sports Day at Cardiff Met!

Remember about the Bwrlwm Sessions next week. Details below!

Autism Centre Works

Work will begin on our new autism base during the Whitsun holidays. When you return to school, please take extra care, as a large section of our car park will be used as a builder's compound. This means parking will be significantly reduced, and staff will need to park on Lewis Road, which will make the area busier than usual.

We are also continuing to see parents stopping in front of our gates when dropping off children for Nursery, especially when arriving late. This is extremely dangerous. A serious accident could occur if this continues. We must remind you that this area is not a parking bay, and vehicles must not stop there at any time.

Throughout the building work, we will also be receiving deliveries during the day, so it is essential that the gates remain clear at all times.

Thank you for your cooperation in keeping our school community safe.



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

Llwyddiant Cenedlaethol

Llongyfarchiadau enfawr i Daisy Gillard a Cyril Bladen, sydd wedi dod yn gyntaf ledled Cymru yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd!

Hefyd, llongyfarchiadau mawr i Cash, sydd wedi sicrhau ail safle drwy Gymru!

Rydym yn hynod falch o'ch llwyddiant, ac fe fyddwn yn cyflwyno eich tystysgrifau ar ôl hanner tymor.

National Success!

A huge congratulations to Daisy Gillard and Cyril Bladen, who have achieved first place across Wales in the Urdd Art and Craft competitions!

Congratulations also to Cash, who secured second place across Wales!

We are so proud of you all and we'll present you with your certificates when you return after half term!



EISTEDDFOD YR URDD



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

Beicathon – 3ydd Gorffennaf

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi y byddwn yn cynnal Beicathon yn yr ysgol ar 3ydd Gorffennaf i godi arian hanfodol ar gyfer gwella ein prif iard chwarae. Ein nod eleni yw codi £5,000 drwy'r Beicathon a'r Ffair Haf er mwyn prynu llwybr cysylltu hir, yn ogystal â hoelion pêl-fasged ac adnoddau awyr agored eraill i gyfoethogi amser chwarae ein disgyblion.

Ar ol hanner tymor, bydd disgyblion yn dod â ffurflenni nawdd adref. Bydd pob cyfraniad — boed yn fawr neu'n fach — yn ein helpu i greu man chwarae mwy cyffrous, creadigol ac ysgogol i'n plant.

Bydd y Beicathon yn cael ei gynnal yn y brif neuadd, lle bydd disgyblion yn cymryd eu tro i feicio drwy'r dydd i gadw'r gerddoriaeth disgo i fynd. Mae'n addo bod yn ddiwrnod llawn egni a hwyl i bawb.

Diolch o galon am eich cefnogaeth barhaus. Gyda'n gilydd, gallwn wneud ein mannau awyr agored hyd yn oed yn well i'n disgyblion.

Bikeathon Fundraiser – 3rd July

We're thrilled to announce that on 3rd July, our school will be hosting a Bikeathon to help raise much-needed funds for improving our main playground. This year, our goal is ambitious but achievable: £5,000. With the combined efforts of the Bikeathon and our Summer Fayre, we hope to purchase a brand-new long connect trail, along with basketball hoops and other exciting outdoor resources to enrich our pupils' playtime.

After half term, pupils will be bringing home sponsorship forms. Every contribution — big or small — brings us closer to creating an outdoor space that inspires active play, creativity, and fun for all children.

The Bikeathon itself will take place in the main hall, where pupils will take turns cycling all day to keep the disco music pumping. It promises to be a lively, energetic event that the children will love.

Thank you in advance for your support. Together, we can make our outdoor areas even better for our pupils.





Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

Twrrw Tafwyl!

Diolch i bob rhiant am eu cyfraniad tuag at Tafwyl ddoe. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn. Cawsom brynhawn hyfryd gyda'r holl ddisgyblion y tu allan yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hwyliog ac yn gwrandao — ac yn dawnsio — i gerddoriaeth Gymraeg!

Tafwyl Day.

Thank you to all parents for your contribution towards Tafwyl yesterday. Your support is greatly appreciated. We enjoyed a wonderful afternoon where all pupils were outside taking part in a range of fun activities and listening — and dancing — to Welsh-language music!

TAFWYL

20—21.06 2026 CASTELL CAERDYDD CARDIFF CASTLE

YN DATHLU 20 MLYNEDD O TAFWYL
CELEBRATING 20 YEARS OF TAFWYL

CANDELAS · COWBOIS RHOS BOTWNNOG · PARTI 20 TAFWYL

ACHLYSUROL · AL LEWIS · ANI GLASS · BOB DELYN A'R EBILLION · BREICHAU HIR

BUDDUG · CARWYN ELLIS A RIO I8 · CORDIA · CRINC · CYN CWSG · DADLEOLI

DANIEL LLOYD A MR PINC · DEWIN · FFENEST · THE GENTLE GOOD

Y GERDDORFA UKULELE · GROOVELINE · GWILYM · HMS MORRIS · HYLL

HYWEL PITTS · LAFANT · LLOYD + FFRINDIAU · LOWRI EVANS

MALI HÂF + JAMES SHANNON · MARTHA ELEN · MEINIR GWILYM

NO GOOD BOYO · PENBLETH · SAGE TODZ · TAI HAF HEB DRIGOLYN · TANORK

TARAN · TEW TEW TENNAU · TOKOMOLOLO · TONNAU +MWY/MORE





Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER

Pel-droed Cymysg.yr Urdd Blynnyddoedd 3 a 4

Llongyfarchiadau i'n tîm pêl-droed cymysg Blwyddyn 4 ar eu perfformiad rhagorol yn y gystadleuaeth Urdd ddydd Iau. Fe wnaethon nhw chwarae'n wych, gan guro Ysgol Iolo Morgannwg, Ysgol y Wern, Ysgol Treganna a Llandough Primary yn y gemau grŵp, ac yn dod i'r brig yn eu grŵp.

Yn y rownd 16 olaf, fe wynebwyd Ysgol Pendoylan, a brofodd yn dîm cryf iawn ac a aeth ymlaen i gyrraedd y rownd derfynol. Er hyn, roedd ein tîm yn wych drwy gydol y twrnament ac fe gynrychiolôn nhw'r ysgol gyda balchder, penderfyniad ac ysbryd chwaraeon ardderchog.

Rydym yn falch iawn ohonynt.

Gwyl Bel-Droed Ysgol Willows.

Llongyfarchiadau i'n tîm pêl-droed Blwyddyn 6 ar eu perfformiad gwych yng Ngŵyl Bêl-droed Willows ddydd Iau. Fe wnaethon nhw chwarae'n arbennig o dda ac roedd eu hymdrech, eu tîm-ymlaen a'u hagwedd yn wych drwy gydol y bore.



Urdd Year 3 & 4 Mixed Football Competition

Congratulations to our Year 4 mixed football team on their fantastic performance in the Urdd competition on Thursday. They played brilliantly, winning against Ysgol Iolo Morgannwg, Ysgol y Wern, Ysgol Treganna and Llandough Primary in the group stages, finishing top of their group.

In the last 16, they faced Pendoylan Primary, who proved too strong on the day and went on to reach the final. Despite this, our team performed exceptionally well throughout and represented our school with pride, determination and great sportsmanship.

They are a real credit to our school.

Willows Football Festival

Congratulations to our Year 6 football team on playing so well at the Willows Football Festival on Thursday. They showed great effort, teamwork and determination throughout the event, and we are very proud of the way they represented our school.





Ysgol Glan Morfa

ALLGYRSIOL EXTRA-CURRICULAR



Nofio Dwys H.T Sulgwyn '26 Intensive Swimming Whitsun H.T '26

Caerdydd a'r Fro
Cardiff and the Vale

Lleoliadau / Locations:

C.H Tyllgoed / Fairwater L.C
Oedran / Age: 3+

C.H y Barri / Barry L.C
Oedran / Age: 4+

*Gwersi 30 munud | 30 minute lessons



Lesson Timetable

C.H Tyllgoed / Fairwater L.C : 26 - 29/05/26

Sblash & Ton 2 + 3 - 09:00 - 09:30

Ton 1 & Ton 4 + 5 - 09:30 - 10:00

£28

Taliad ar gyfer 4 diwrnod |
Payment for 4 days

C.H y Barri / Barry L.C : 26 - 29/05/26

Ton 1 & Ton 4 + 5 - 10:00 - 10:30

Ton 2 + 3 & Ton 6, 7 + 8 - 10:30 - 11:00

£26

Taliad ar gyfer 4 diwrnod |
Payment for 4 days

Cyswllt uchwyddu'r tîm nofio am fwy o

Please contact the swimming team for more

URDD CAERDYDD A'R FRO

Gweithdy Crochenwaith Pottery Workshop

22/07/26 - BL.3,4,5 + 6
12/08/26 - BL.7,8,9 + 10
12:00-14:00/15:00

CARDIFF POTTERY WORKSHOPS, CF11 8RR

Creu bowlen, tylluan neu bwystfil neu creu a pheintio plat i mowldio a'u haddurno gan y plant.

Bowls, owls and monsters will be glazed in one colour or Make & Paint plates will be moulded and decorated by the children using colourful slips.

Cofrestrwch erbyn
Register by:
01/07/2026

£20

elenevans@urdd.org

SESIWN PADLFYRDDIO - CYMRADD PADDLEBOARDING SESSION - PRIMARY SCHOOLS

CAERDYDD A'R FRO

DYDDIAD | DATE
30/07/2026

AMSER | TIME
10:00 - 12:00

OEDRAN | AGE
YR./BL. 3-6

LLEOLIAD | LOCATION
BARRY COMMUNITY WATER ACTIVITY CENTRE

£30

Cofrestrwch erbyn | Register by:
01/07/2026

ARCHEBU | BOOK:
<https://gweithgareddau.urdd.cymru/>

Dewisiwch | Choose:
Teithiau a Chlybiau / Clubs

MANYLION | INFO.
Sesiwn dwy awr o dan arweiniad hyfforddwyddwr
Cwriadol a hyfforddedig / A two-hour session
by experienced and trained instructors.



Ysgol Glan Morfa

BWRLWM SULGWYN/WHITSUN



cynllun chwarae agored

Bwrlwm Tafwyl!

open access play scheme

Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 6/ Reception - Year 6

Cofrestru ar y dydd/ Register on the day

Cyfanswm 50 i bob lleoliad/ Maximum Capacity 50



YSGOL GLAN MORFA

10.00am-11.55am

Mawrth - Iau 26-28.05.2026 Tuesday- Thursday

- CELF A CHREFFT/ ART AND CRAFTS
- LEGO ● CHWARAEON/ SPORTS
- GEMAU/ GAMES
- GWEITHGAREDDAU STEM ACTIVITIES
- A MWY/ and more!



www.mentercaerdydd.cymru

AM DDIM/ FREE



Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
Playworks Holiday Project



Menter Caerdydd - Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565

CLICIWCH AR Y LINC ISOD I ATEB HOLIADUR
MENTER CAERDYDD AM EU SESIYNAU
BWRLWM.

CLICK ON THE LINK BELOW TO ANSWER
MENTER CAERDYDD'S QUESTIONNAIRE
REGARDING BWRLWM!





Ysgol Glan Morfa

MABOLGAMPAU SPORTS DAYS

YSGOL GLAN MORFA



MABOLGAMPAU SPORTS DAY

MET CAERDYDD

**Dydd Llun, Mehefin 1af
Monday, 1st of June**

Bore / Morning
08:45 - 11:45
Blynnyddoedd 4,5 a 6
Years 4,5 & 6

Prynawn / Afternoon
12:45 - 2:45
Blynnyddoedd 1,2 a 3
Years 1,2 & 3



Nursery and Reception SPORTS DAY

Mabolgampau'r Meithrin - Ysgol Glan Morfa	Nursery Sports Day - Ysgol Glan Morfa	3.6.26	Meithrin Bore / Morning Nursery - 9-10am Meithrin Prawn / Afternoon Nursery 1.15pm - 2.15
Mabolgampau'r Derbyn - Ysgol Glan Morfa	Reception Sports Day - Ysgol Glan Morfa	10.6.26	Bore / Morning 09:00 - 10:30

Pwysig

Gofynnwn i rieni gludo'r disgyblion i Met Caerdydd yn y bore - ni fydd trafnidiaeth ar gael. Cwrdd 08.45.

Ar ôl gweithgareddau Mabolgampau y bore, gall disgyblion fynd adref os yw rhieni'n hysbysu'r ysgol. Os yw disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol, bydd bws ar gael i'w cludo.

Bydd Blynnyddoedd 1, 2 a 3 yn teithio i Cardiff Met ar fws o'r ysgol. Yn anffodus nid oes trafnidiaeth yn ôl i'r ysgol oherwydd amserlenni sy'n gwrthdaro gyda theithiau bws eraill. Gofynnwn i rieni eu casglu o Met Caerdydd neu wneud trefniadau os oes angen i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol.

Diolch yn fawr.

Gyda 'n Gilydd Fe Lwyddwn | Together We Will Succeed

Important

We kindly ask parents to transport pupils to Cardiff Met in the morning, as no transport will be available. Please meet at 08:45.

Following the morning Sports Day activities, pupils may go home if parents inform the school. If pupils are returning to school, a bus will be available to bring them back.

Years 1, 2 and 3 will travel from school to Cardiff Met by bus. Unfortunately, there will be no return transport to school due to clashes with other scheduled school runs. We ask parents to collect from Cardiff Met or to make arrangements should their child need to return to school.

Thank you.



SIARTER IAITH



Siarter Iaith / Welsh Language Charter

Patrwm iaith yr Wythnos / Language Pattern

Bwyd (Food)

Beth sydd i ginio heddiw? (What's for lunch today?) I ginio heddiw mae yna... (For lunch today, there's...)

Her / Challenge

I ginio fory mae yna... (For lunch tomorrow, there's...)

Testun Trafod / Discussion Topic

Beth petai dim lliw yn y byd?
(What if there was no colour in the world?)

Cân yr wythnos / Song of the week

Gwilym - Gwalia

<https://youtu.be/JbYz0PNz9Oc?si=5JGtbeHY8kdRko-e>

Idiom yr Wythnos / Idiom of the Week

Mae e'n llygaid ei le/ Mae hi'n llygaid ei lle
(He/She is exactly right)





CALENDR

Mehefin / June

Beth?	What?	Dyddiad / Date	Amser / Time
Mabolgampau Blynnyddoedd 4,5 a 6 – Met Caerdydd	Years 4, 5 and 6 Sports Day – Cardiff Met	1.6.26	08:45 - 11:45
Mabolgampau Blynnyddoedd 1, 2 a 3 – Met Caerdydd	Years 1 & 2 & 3 Sports Day – Cardiff Met	1.6.26	12:45 – 14:45
Criced yr Urdd – BI 3 a 4	Urdd Cricket – Years 3 & 4	2.6.26	Trwy'r dydd / All day
Gweithdy Rhaglennu Scratch (BI 3 a 4)	Scratch programming (BL 3 a 4)	3.6.26	Trwy'r dydd / All day
Mabolgampau'r Meithrin – Ysgol Glan Morfa	Nursery Sports Day – Ysgol Glan Morfa	3.6.26	Meithrin Bore / Morning Nursery – 9-10am Meithrin Pnawn / Afternoon Nursery 1.15pm - 2.15
Sesiwn Galw-Mewn i fod yn Riant Lywodraethwr	Drop in session for those interested in being a Parent Governor	4.6.26	15:00 - 15:30
Taith Blwyddyn 1 – Beach Academy Rest Bay, Porthcawl	Year 1 Trip - Beach Academy Rest Bay, Porthcawl	4.6.26	Trwy'r dydd / All day
Ein Senedd Ni	Our Parliament	10.6.26	Bore / Morning



CALENDR

Mehefin / June

Beth?	What?	Dyddiad / Date	Amser / Time
Mabolgampau'r Derbyn - Ysgol Glan Morfa	Reception Sports Day - Ysgol Glan Morfa	10.6.26	Bore / Morning 09:00 - 10:30
Wythnos Ffoaduriaid / Refugee Week 15-19 Mehefin / June			
Diwrnod HMS - Clwstwr Bro Edern	Bro Edern Cluster INSET Day	19.6.26	Trwy'r dydd / All day
Derbyn, 1 a 2 yn Canu yn Tafwyl	Reception, Year 1 & 2 singing in Tafwyl	21.6.26 (Sunday 12.15)	Dydd Sul / Sunday 12:15
Athletau'r Urdd	Urdd Athletics	25.6.26	Trwy'r Dydd / All Day
Ymweliad Blwyddyn 3 i Fae Caerdydd	Year 3 Visit to Cardiff Bay	25.6.26	Trwy'r dydd / All Day
Diwrnodau Pontio Bl 6 i Fro Edern	Year 6 Transition Day Bro Edern	25 & 26.6.26	Trwy'r dydd / All day

Wythnos Calon Lan / Healthy Heart Week 29 Mehefin/June - 3ydd o Orffennaf/July



Ysgol Glan Morfa

CALENDR

Gorffennaf / July

Beth?	What?	Dyddiad / Date	Amser / Time
Ffair Haf	Summer Fayre	1.7.26	15:00 - 17:00
Beicathon! Her Noddedig	Bikeathon! Sponsored Event.	3.7.26	Trwy'r dydd / All day
Gwersi Nofio Blwyddyn 3	Year 3 Swimming Lessons	6.7.26 – 17.7.26	10:15 -11:00
Sioe Diwedd Blwyddyn yr Ysgol Uchaf – Ysgol Bro Edern	Upper School End of Year Show – Ysgol Bro Edern	9.7.26	17:00
Taith i Ddwr Cymru - Blwyddyn 2	Year 2 Visit to Welsh Water	10.7.26	Trwy'r dydd / All day
Ymweliad Blynnyddoedd 4 a 5 i Sain Ffagan	Years 4 and 5 visit to St Fagans	16.7.26	Trwy'r dydd / All day
Diwrnod Olaf y Tymor (gemau bwrdd)	Last Day of Term (board games)	17.7.26	Trwy'r dydd / All day

Gwyliau'r Haf / Summer Holidays